

Hawdd ei Ddeall



**TRAFNIDIAETH
CYMRU
TRANSPORT
FOR WALES**

Trafnidiaeth Cymru

Gwella gwasanaethau trên

Dywedwch beth rydych yn feddwl erbyn

23 Mai 2017



Fersiwn hawdd ei ddeall o Trafnidiaeth Cymru – Dyluniad gwasanaeth rheilffordd Cymru a'r Gororau yn cynnwys Metro

Chwefror 2017

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Mae hwn yn fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgriflen glas tywyll** ac mae beth maen nhw'n feddwl mewn blwch o dan y gair.

Lle mae'r ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn golygu Trafnidiaeth Cymru.

I gael mwy o gopiâu o'r fersiwn hawdd i'w ddeall yma:



Ffôn: 029 2167 3434

E-bost: contact@transportfor.wales



Gwefan: www.wales.gov.uk/transportforwales



Beth ydy hyn?

Trenau Arriva Cymru sydd yn rhedeg y rhan fwyaf o'r trenau yng Nghymru ar y funud.



Mae'r gwasanaeth yma'n cael ei alw yn **Cymru a'r Gororau**. Mae hyn yn meddwl trenau sydd yn rhedeg yng Nghymru a rhai trenau sydd yn mynd i Loegr hefyd. Er enghraifft, trenau sydd yn mynd i leoedd fel Manceinion, Birmingham a Cheltenham.



Fe fydd **contract** Trenau Arriva Cymru i redeg trenau Cymru a'r Gororau yn dod i ben yn Hydref 2018.

Contract ydy cytundeb cyfreithiol rhwng pobl neu gwmnïau. Mae'n gallu bod ynghylch rhywbeth fel swydd, gwerthu rhywbeth neu wasanaeth. Mae'n dweud beth mae pob person neu gwmni yn cytuno ei wneud.



TRAFNIDIAETH
CYMRU
TRANSPORT
FOR WALES

Ni ydy Trafnidiaeth Cymru. Mae
Llywodraeth Cymru wedi ein creu fel
cwmni ar wahân.



Ein gwaith ydy prynu gwasanaeth trenau
newydd i Gymru.



Yma rydyn ni'n dweud wrthy ch chi am rai
pethau pwysig i feddwl amdanyn nhw.
Rydyn ni eisiau i chi ddweud beth ydych
chi eisiau gan wasanaeth trên newydd.



Y gwasanaeth trenau nawr

Mae Trenau Arriva Cymru wedi bod yn
rhedeg y gwasanaeth ers 2003.



Mae pethau wedi newid llawer ers hynny.
Mae mwy o bobl yn defnyddio trenau felly
maen nhw'n llawn. Mae siopau ar agor ar
y Sul felly mae pobl eisiau teithio. Ond
does dim llawer o drenau ar ddydd Sul.

Y Gwasanaeth Cymru a'r Gororau newydd



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod y gwasanaeth newydd yn dda a bod mwy o bobl yn ei ddefnyddio.

Rydyn ni eisiau i bobl ddefnyddio mwy o **trafnidiaeth cyhoeddus** i helpu'r **amgylchedd**.



Trafnidiaeth cyhoeddus ydy bysus a threnau.



Yr **amgylchedd** ydy'r tir, dŵr ac aer o'n cwmpas.

Metro De Cymru



Yn Ne Ddwyrain Cymru fe fydd yna wasanaeth trenau newydd o'r enw Metro De Cymru.

Fe fydd gan Metro De Cymru fwy o drenau a threnau cyflymach. Fe fydd yn gwneud teithio o gwmpas De Cymru yn haws.



Mae gwybodaeth am Metro De Cymru ar gael ar ein gwefan

<http://gov.wales/topics/transport/public/metro/?skip=1&lang=cy>.

Beth ydych chi'n feddwl?

Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl

1. Ydych chi'n hoffi'r syniad?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn siwr



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl a beth fyddai'n eich helpu i ddefnyddio'r trenau.



Atebwch y cwestiynau a'u hanfon atom erbyn **23 Mai 2017** os gwelwch yn dda.

Gallwch bostio eich atebion inni

Trafnidiaeth Cymru

Southgate House

Wood Street

Caerdydd

CF10 1EW



Neu gallwch anfon e-bost:

contact@transportfor.wales



Cwestiynau

Y trê'n

Fe fydd toiledau **hygyrch** ar y gwasanaeth Cymru newydd a gwybodaeth am y daith.









Hygyrch ydy hawdd ei ddefnyddio.



Pa bethau eraill sydd yn bwysig i chi?

Dywedwch pa mor bwysig ydy'r pethau yma i chi. Nodwch nhw o 1 i 6, gyda rhif 1 yn fwyaf pwysig a rhif 6 y lleiaf pwysig.

	Gofod i fagiau	
	Gofod i fyrddau	

	<p>Seddi lle rydych yn gallu gweld allan o'r ffenestri</p>	
	<p>Mwy o le i'ch coesau</p>	
	<p>Gofod i gadw beiciau</p>	
	<p>Seddi dosbarth busnes</p>	



Yn ardal Metro De Cymru mae'r trenau yn mynd i fod yn wahanol.



Fe fyddan nhw yn well i lawer o bobl sydd yn mynd ar deithiau byr.

Ar gyfer y **teithiau byr** ar y trenau Metro rydyn ni eisiau gwybod:

Oes angen toiledau ar drenau teithiau byr?




Oes	
Nac Oes	
Dim yn Gwybod	

Oes angen toiledau ar y trenau pan mae yna lawer o doiledau yn y gorsafoedd?



Oes	
Nac Oes	
Dim yn Gwybod	

Oes modd cael llai o seddi pan mae yna ofod diogel i sefyll?



Oes	
Nac Oes	
Dim yn Gwybod	



Oes angen i bob platfform yn y gorsafoedd fod yn lefel gyda'r trê'n? Mae hyn yn meddwl nad oes yna ddim bwlch na stepen wrth fynd ar y trê'n neu oddi arni.

Oes	
Nac Oes	
Dim yn Gwybod	



Nawr mae yna ail berson ar bob trê'n. Maen nhw'n gwneud pethau fel rhoi gwybodaeth, helpu teithwyr a gwerthu tocynnau. Ydy hyn yn:

Pwysig iawn	
Pwysig	
Dim yn bwysig iawn	
Dim yn gwybod?	



Pan mae yna ail berson ar y trê'n, beth ydych chi'n feddwl y dylai'r person hwnnw wneud?

--






Yr orsaf

Pa bethau ar y rhestr yma ydych chi eu hangen yn yr orsaf?

Ticiwch y blychau i ddangos pa bethau rydych eu hangen yn:



- gorsafoedd mawr fel Caerdydd
- gorsafoedd bach fel Cwmbran.

Pethau rydych eu hangen	Gorsaf fawr	Gorsaf fach
 <p>Staff i helpu</p>		
 <p>Pwyntiau help mewn argyfwng</p>		
 <p>Camerau diogelwch</p>		
 <p>Ardaloedd aros gyda chysgod</p>		

Pethau rydych eu hangen	Gorsaf fawr	Gorsaf fach
 <p>Train Ticket</p> <p>Lleoedd i brynu tocyn</p>		
 <p>Toiledau</p>		
 <p>Parcio</p>		
 <p>Caffi</p> <p>Siopau a chaffis</p>		
 <p>Gofod i gadw beiciau</p>		
 <p>Arhosfan Bws</p> <p>77 22 5</p> <p>Arosfannau bws</p>		

Pethau rydych eu hangen	Gorsaf fawr	Gorsaf fach
 <p>Lleoedd i gasglu parseli rydych wedi eu prynu ar y rhynggrwyd</p>		
 <p>Rhynggrwyd am ddim</p>		
 <p>Gwybodaeth i deithwyr</p>		
 <p>Lleoedd i wefru ffônau symudol</p>		
 <p>Lleoedd i wefru ceir trydan</p>		



Gorsaf drên



Beth arall sydd ei angen yn yr orsaf?

Mae rhai pobl leol wedi helpu i wella'r orsaf. Mae rhai'n cadw'r orsaf yn lân ac yn daclus. Mae rhai pobl leol yn rhedeg pethau fel caffis yn yr orsaf.



Sut ydych chi'n meddwl y gall pobl fod yn rhan o'r orsaf?



Ar hyn o bryd mae rhai meysydd parcio wrth ymyl gorsafoedd trenau am ddim.

Mae rhai pobl yn parcio yn y meysydd parcio yma hyd yn oed os nad ydyn nhw'n defnyddio'r trenau.



Rydyn ni'n meddwl am godi tâl am feysydd parcio. Fe allwn ni ddefnyddio'r arian i wneud y meysydd parcio yn well ac yn fwy diogel. Ydy hyn yn syniad da?

Ydy	
Nac ydy	
Dim yn gwybod	

Pryd ddylai fod mwy o drenau?



Pryd rydych chi eisiau mwy o drenau i redeg? Nodwch nhw o 1 i 5, gyda rhif 1 y mwyaf pwysig a rhif 5 y lleiaf pwysig.

Rhwng 7am a 9.30am	
Rhwng 9.30am a 4pm	
Gyda'r nos ar ôl 9pm	
Yn y bore cyn 7am	
Ar ddydd Sul a Gwyliau Banc fel Diwrnod Cyntaf y Flwyddyn	




Beth sydd fwyaf pwysig i chi? Nodwch nhw o 1 i 6, gyda rhif 1 y mwyaf pwysig a rhif 6 y lleiaf pwysig.

	<p>Amser teithio cyflymach</p>	
	<p>Trenau yn dod yn fwy aml</p>	
	<p>Trenau'n dod ar amser</p>	
	<p>Mwy o drenau uniongyrchol lle nad oes rhaid i chi newid</p>	
	<p>Amserlenni sydd yn ffitio gyda threnau a bysus eraill</p>	
	<p>Trenau cyflym gyda llai o stopio</p>	



Beth sy'n ei gwneud yn anodd i chi deithio ar drenau?



Trenau a Gorsafoddd yn Lloegr

Mae gwasanaeth trenau Cymru a'r Gororau yn rhedeg trenau sydd yn croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.



Mae ganddyn hhw hefyd rai trenau sydd ond yn rhedeg yn Lloegr. Yr Adran Trafnidiaeth sydd yn gofalu am y gwasanaethau trenau yn Lloegr.



Rhaid i drenau o Ogledd Cymru i Dde Cymru redeg trwy Loegr.

Maen nhw'n mynd trwy orsafoddd mawr fel Henffordd, Amwythig a Chaer.


Maen nhw hefyd yn mynd trwy rai gorsafoedd bach.



Mae llawer o'r teithwyr yn y gorsafoedd yma yn mynd i Gymru neu yn dod o Gymru.



Mae'r Adran Trafnidiaeth yn meddwl y dylai'r 3 gorsaf fawr yn Henffordd, Amwythig a Chaer gael eu rhedeg efallai gan gwmnïau trenau yn Lloegr.




Ydych chi'n meddwl y dylau'r gorsafoedd yn Henffordd, Amwythig a Chaer gael eu rhedeg gan gwmnïau trenau yn Lloegr?

Ydw	
Nac ydw	
Dim yn gwybod	



Dim ond trenau Cymru a'r Gororau sydd yn defnyddio rhai o'r gorsafoedd bach yn Lloegr.



Ydych chi'n meddwl y dylai'r gorsafoedd bach yn Lloegr gael eu rhedeg gan Cymru a'r Gororau?

Ydw	
Nac ydw	
Dim yn gwybod	

Prisiau a thocynnau trên



Beth ydy'r peth mwyaf pwysig am docynnau a phrisiau o'r rhestr yma?

Nodwch nhw o 1 i 4, gyda rhif 1 y mwyaf pwysig a rhif 4 y lleiaf pwysig.

Prisiau is pan nad ydy'r trên yn brysur	
Arian i ffwrdd o brisiau tocynnau i weithwyr rhan amser	
Tocynnau yr ydych yn gallu eu defnyddio ar fysus hefyd	
Prisiau haws eu deall	



Cael gwybodaeth am drenau

Sut ydych chi eisiau cael gwybodaeth am amseroedd trenau ac oedi gyda threnau?

Ticiwch bob un sydd yn syniadau da.

	Gwybodaeth yn yr orsaf	Ap	E-bost a thestun	Gwefan	Ar y trê	Facebook a Twitter	Staff yn yr orsaf
Newidiadau trenau wedi'i gynllunio							
Oedi gyda threnau pan maen nhw'n digwydd							
Cynllunio eich taith ac amseroedd trenau							
Trenau newydd yn rhedeg							

	Gwybodaeth yn yr orsaf	Ap	E-bost a thestun	Gwefan	Ar y trê	Facebook a Twitter	Staff yn yr orsaf
Newidiadau mewn prisiau							
Gwybodaeth teithio ar gyfer digwyddiadau mawr fel Rygbi'r 6 Gwlad							
Pa mor dda mae'r wasanaeth trê yn gwneud							



Amdanoch chi

Os ydych yn ateb ar ran grŵp, rhowch enw'r grŵp.




Sut wnaeth aelodau ddweud wrthyich chi beth maen nhw'n feddwl?



Os ydych yn ateb drosoch eich hun,
dywedwch wrthyn ni:

	Rhan gyntaf eich côd post	
	Yr orsaf agosaf atoch	
	I lle rydych yn teithio fel arfer	
	Pa amseroedd rydych chi'n teithio ar y trê'n fel arfer	
	Pa mor aml ydych chi'n defnyddio trê'n? Ticiwch	
	Bob dydd	
	Yn aml	
	Weithiau	
	Bron byth	
	Byth	

 <p>dda</p>	<p>Pam rydych chi'n teithio? Ticiwch os gwelwch yn</p>	
<p>I ac o'r gwaith</p>		
<p>Mynd allan am hwyl</p>		
<p>I'r gwaith</p>		
<p>I ysgol, coleg neu brifysgol</p>		
<p>I fynd i weld y meddyg neu i'r ysbyty</p>		
<p>Rhywbeth arall. Dywedwch wrthyn ni os gwelwch yn dda.</p>		

Ticiwch unrhyw un o'r rhain sydd amdanoch chi os gwelwch yn dda:

Rwy'n defnyddio cadair olwyn	
Rwy'n defnyddio cadair wthio	
Dydy Cymraeg neu Saesneg ddim yn iaith gyntaf imi	
Rwy'n ddall neu ddim yn gallu gweld yn dda iawn	
Rwy'n cael problemau gyda cherdded	
Rwy'n fyddar neu ddim yn clywed yn dda iawn	
Mae gen i anabledd dysgu	
Rhywbeth arall. Dywedwch wrthyn ni os gwelwch yn dda	